**RHYBUDD o Benderfyniadau'r Cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd yn Council Chamber, Council Offices, Llangefni ar Dydd Llun, 23 Ionawr 2017**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm ar ddydd Mercher, 25 Ionawr, 2017. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ar ddydd Mercher, 1 Chwefror, 2017. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ar ddydd Iau, 2 Chwefror, 2017.

**Presennol**: Y Cynghorwyr R Dew, K P Hughes, A M Jones, H E Jones, J A Roberts, Alwyn Rowlands a Ieuan Williams (Cadeirydd)

**Hefyd yn bresennol**: Y Cynghorwyr John Griffith, Llinos M. Huws, R. Meirion Jones.

**Ymddiheuriadau**: Dim

(10.00 o'r gloch - 10.15 o'r gloch)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 Cofnodion** |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 19 Rhagfyr 2016 fel rhai cywir.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **D/B** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **D/B** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Cofnodion – Panel Rhiant Corfforaethol** |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD cadarnhau cofnodion y cyfarfod o'r Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr, 2016 fel rhai cywir.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **D/B** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **D/B** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br>Adroddiad gan y Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD cadarnhau Blaenraglen y Pwyllgor Gwaith wedi ei diweddaru am y cyfnod o fis Chwefror i fis Medi 2017 yn amodol ar y newidiadau ychwanegol a amlinellwyd yn y cyfarfod.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cryfhau trefniadau atebolrwydd a chynllunio ymlaen.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Ydi** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Adroddiad ar yr Ymgynghoriad Statudol ar ostwng yr oedran mynediad ar gyfer Ysgol Brynsiencyn**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Dysgu |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD parhau gyda'r broses drwy gyhoeddi gorchymyn statudol ynghylch gostwng oed mynediad i Ysgol Brynsiencyn fel y gellir derbyn disgyblion ar sail rhan amser yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Ymateb i gais gan Gorff Llywodraethu Ysgol Brynsiencyn.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Ydi** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 Moderneiddio Ysgolion – Caergybi a Llanfaethlu**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Dysgu |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD cymeradwyo oedi o ran dyddiad gweithredu'r ddau gynnig i gwblhau Ysgol Rhyd y Llan ac Ysgol Caergybi tan 1 Medi 2017 ar yr amod bod y swyddogion yn rhoi gwybod i'r "partïon perthnasol".** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Gweithredu ar y cais am newid i'r Rhaglen Amlinellol Strategol.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Ydi** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 Trefniadau Ariannu ar gyfer Ysgolion Newydd**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog 151 |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD:-**<br>• **Yn y flwyddyn gyllido gyntaf, gosod cyllidebau ar gyfer unrhyw ysgolion sy'n cau neu ysgolion newydd sy'n eu holynu, a hynny'n seiliedig ar ddyraniad cyllidebol yr ysgolion cyfredol ar gyfer blwyddyn lawn, ac yna rhannu'r cyfanswm rhwng yr ysgolion sy'n cau a'r ysgolion newydd sy'n cymryd eu lle, yn seiliedig ar ddyddiadau cau neu agor pob ysgol;**<br>• **Diwygio'r Polisi Ariannu Teg, er mwyn caniatáu trosglwyddo unrhyw warged cyfun sydd gan yr ysgolion sy'n cau i'r ysgol newydd sy'n cymryd eu lle, hyd at y trothwy o £50,000 ar gyfer y sector Cynradd / £100,000 ar gyfer y sectorau Uwchradd ac Arbennig neu 5% o ddyraniad cyllidebol yr ysgol sy'n olynu;**<br>• **Trosglwyddo i'r gyllideb Addysg Ganolog unrhyw warged sydd dros £ 50,000 / £ 100,000 yn yr ysgolion sy'n cau, neu sy'n uwch na 5% o ddyraniad cyllidebol yr ysgol newydd, a hynny er mwyn talu am gostau trosiannol yn y flwyddyn gyntaf;**<br>• **Pan geir arbedion refeniw yn sgil cau ysgolion a sefydlu un ysgol newydd arall yn eu lle, bydd unrhyw arbediad refeniw yn cael ei dynnu o gyllideb ddirprwyedig gyffredinol yr ysgol fel cyfraniad i'r cynnydd yn y costau cyllido cyfalaf sy'n deillio o'r buddsoddiad yn yr ysgolion newydd;**<br>• **Bydd unrhyw bwysau Diogelu Cyflog yn cael eu tynnu o'r arbediad refeniw uchod (pwynt 4). Dylai'r cyflog cyfartalog ar gyfer yr ysgol newydd gynnwys unrhyw bwysau o ran diogelu cyflogau. Bydd yr ysgol newydd yn gyfrifol am dalu'r costau diogelu cyflogau. Unwaith y bydd y diogelwch cyflog wedi dod i ben, bydd yr arbediad hwn hefyd yn cael ei dynnu o'r Gyllideb a Ddirprwywyd i Ysgolion.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Delio gyda'r trefniadau mewn perthynas â chyllido ysgolion newydd.** |

| | |
|---|---|
| | |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Ydi** |